# Cyfathrebu a chyd-drefnu ar saethiad aml-gamera

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfathrebu a chyd-drefnu ar saethiad aml-gamera. Mae'n ymwneud â chyfathrebu gyda'r criw camera yn ogystal â chyfathrebu rhwng y criw camera ac eraill sydd ynghlwm â'r cynhyrchiad. Fe allai hyn fod yn berthnasol i unrhyw fath o gynhyrchiad gan gynnwys ffilmiau nodwedd, dramâu Teledu, hysbysebion, rhaglenni dogfen, rhaglenni chwaraeon, darllediadau tu allan a digwyddiadau byw neu ar lwyfannau.

Mae hyn  yn cynnwys chyfathrebu dros radio, porthwyr, monitorau, goleunodau a gan ddefnyddio wybodaeth ysgrifenedig, signalau ac ystumiau. Mae hefyd yn ymwneud â chyd-drefnu gyda gweithredwyr camera eraill i wella ansawdd y saethiadau, amseriad symudiadau'r camera a phontio rhwng saethiadau.

Mae'r safon hon ar gyfer gweithredwyr Camera sy'n gweithio ar gynhyrchiad aml-gamera.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sicrhau a defnyddio cyfarpar ar gyfer cyfathrebu a chyd-drefnu fel sy'n briodol ar gyfer saethiadau
2. gwirio bod radios, goleunodau, porthwyr a monitorau'n gweithio heb unrhyw ymyrraeth
3. atal datgelu unrhyw gyfathrebu ar sain rhaglenni neu'r amgylchedd gweithio
4. adnabod a dehongli cyfathrebu sy'n benodol i'ch rôl weithredol chi
5. adnabod a dehongli gwybodaeth caiff ei gyfeirio at weithwyr eraill, ond a all effeithio ar eich rôl weithredol chi
6. llunio nodiadau gweithredol eglur y bydd modd i weithredwyr eu dehongli pan fo angen
7. defnyddio signalau neu ystumiau priodol pan fo cyfathrebu ar lafar yn anymarferol
8. cyfathrebu gydag aelodau'r criw ar adegau priodol
9. cyfeirio cyfathrebu drwy drydydd parti priodol pan fo angen
10. cydymffurfio gyda phrotocolau priodol wrth gyfathrebu gyda thimau cynhyrchu neu adrannau eraill
11. defnyddio goleunodau'r camerâu, porthwyr, monitorau a radios i gydlynu saethiadau camera, symudiadau ac ail-leoliadau ar adegau priodol
12. defnyddio goleunodau'r camerâu, porthwyr, monitorau a radios i wella ansawdd saethiadau, amseriad symudiadau'r camerâu a phontio rhwng saethiadau
13. defnyddio porthwyr neu fonitorau i gydlynu'ch saethiadau chi gyda saethiadau gweithredwyr eraill
14. defnyddio porthwyr neu fonitorau i wella golwg ac amseriad porthi rhwng saethiadau, toriadau, cymysgiadau, toddiadau a disodliadau
15. defnyddio porthwyr a monitorau i addasu cyfansoddiad saethiad wrth ddefnyddio troslythreniadau, sgriniau hollt neu effeithiau electronig eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y cadwyni a phrotocolau cyfathrebu perthnasol
2. sut i gyfathrebu gydag aelodau'r criw a phryd y mae'n briodol ichi wneud hynny
3. y dulliau cyfathrebu di-eiriau mae'n bosib y byddwch yn ei ddefnyddio pan fo angen ichi weithio mewn distawrwydd
4. y derminoleg a byrfoddau y caiff eu defnyddio
5. sut i gael gafael ar, cysylltu a gweithredu gwahanol fathau o radios
6. yr agweddau iechyd a diogelwch ynghlwm â defnyddio radios mewn mannau gyda graddfa sŵn amgylchynol uchel
7. sut i adnabod a dehongli perthnasedd y wybodaeth rydych yn ei derbyn yn gywir
8. sut i ddefnyddio goleunodau camera, porthwyr, monitorau a radios i wella ansawdd saethiadau
9. sut a phryd y mae hi'n briodol i gyfathrebu gyda'r tîm cynhyrchu, y tîm lluniau, neu adrannau cyfleusterau eraill
10. y ffynonellau porthiant gan gynnwys porthwyr ffenestr allanol a phorthwyr cymysg
11. sut i ddefnyddio porthwyr ffenestri allanol, porthwyr cymysg a monitrau i gyd-lynu a chyflenwi allbwn eich camera gyda chynnwys cyffredinol a pharhaus y rhaglen
12. y mathau o wybodaeth gallwch ei defnyddio i wella ansawdd y saethiadau gan gynnwys sŵn rhaglen, sylwebaeth, rhifau saethiadau a'r camerâu, ôl-gyfrif neu gyfrif bariau
13. sut i ddefnyddio porthwyr a monitorau i wella pontio rhwng saethiadau ac i fonitro unrhyw droslythreniadau neu effeithiau electronig rhwng saethiadau a all effeithio ar gyfansoddiad y llun
14. y gwahanol fathau o oleunodau camerâu a sut i'w dehongli
15. y cyfyngiadau ynghlwm â gweithredu goleunodau camerâu
16. cyfeirio allbwn eich camera a pwy o bosib fydd yn ei ddefnyddio, hyd yn oed pan na fyddwch chi'n bresennol yn y saethiad

Cyfathrebu a chyd-drefnu ar saethiad aml-gamera

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSC18 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â'r Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Camera |
| **Geiriau Allweddol** | camera; meic cyswllt electronig; cyd-drefniant gweledol; porthwyr ffenestri camera; saethiad teledu aml-gamera; goleunodau; criw camera |